Cyngor Bro Morgannwg

Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd (“y Rheoliadau”)

Ar 26 Hydref 2020 ystyriodd Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg dri honiad bod y Cynghorydd Cymuned R Thomas wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Cymuned Sili a Larnog ar gyfer Aelodau.

Yn unol â rheoliad 9(1) y Rheoliadau, penderfynodd aelodau Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad ac y dylid ei geryddu yn ymwneud â phob un o'r honiadau canlynol:-

(1) B O D, yn deillio o benderfyniad y Pwyllgor Safonau, ac yn groes i Baragraff 11(1) a 14(1)(a)(i) o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned Sili a Larnog, y Cynghorydd Cymuned R Thomas mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Sili a Larnog ar 27 Medi 2017 wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus, ac y dylid ceryddu'r Cynghorydd Cymuned Thomas;

(2) B O D, yn codi o benderfyniad y Pwyllgor Safonau, ac yn groes i Baragraff 4(b) o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned Sili a Larnog, sylwadau amhriodol wedi’u gwneud i unigolyn ac y dylid ceryddu’r Cynghorydd R Thomas;

(3) B O D, yn deillio o benderfyniad y Pwyllgor Safonau, ac yn groes i Baragraff 5(a) Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned Sili a Larnog, y Cynghorydd R Thomas wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod sgyrsiau fel y cyfeirir atynt mewn datganiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac y dylid ceryddu'r Cynghorydd R Thomas.

Victoria Davidson
Dirprwy Swyddog Monitro
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU